Cylchlythyr

Hydref 2017

Annwyl Aelod o'r Panel,

Croeso i Gylchlythyr Cynnwys Casnewydd….

Mae'r cylchlythyr hwn yn rhoi adborth ar rai o'r pynciau a oedd yn destun ymgynghoriad Arolygon y Panel yng **Ngaeaf** a **Gwanwyn** 2017, gan grynhoi 'beth ddywedoch chi wrthym ni' a 'beth wnaethom ni'. Darllenwch y cylchlythyr i gael rhagor o wybodaeth!

Beth ddywedoch chi wrthym ni / Beth wnaethom ni… …Y Bont Gludo

Mae'r wybodaeth a gafwyd drwy 'Arolwg Cynnwys Casnewydd' yn cael ei defnyddio ar gyfer paratoi Cais y Cyngor i Gronfa Dreftadaeth y Loteri am fuddsoddiad sylweddol i drwsio a datblygu'r Bont Gludo. Roedd 78.9% o'r bobl yn gweld y Bont Gludo fel Ased Treftadaeth pwysig a bod angen cymorth arni tra bod 71% o'r bobl a holwyd yn credu mai dyma dirnod mwyaf adnabyddus Casnewydd.

Mae Cronfa Dreftadaeth y Loteri am sicrhau'r budd gorau posibl i'r gymuned o'u buddsoddiad ac mae ymatebion i ymgynghori ac ymatebion arolwg yn ofyniad pwysig ar gyfer y cais am grant. Mae'n gadarnhaol hefyd bod canrannau mor uchel o'r gymuned yn cydnabod pwysigrwydd yr ased treftadaeth sy'n ganolog i'r cais.

Beth ddywedoch chi wrthym ni…
… Beth sy'n bwysig i chi am Wastadeddau Gwent?

Cawsoch wahoddiad gan Bartneriaeth Dirwedd Gwastadeddau Byw, sy'n cynnwys 12 o sefydliadau ac awdurdodau lleol ac sy'n cael ei hariannu gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri i helpu i ailgyflwyno, gwella ac adrodd stori Gwastadeddau unigryw Gwent, i ddarparu gwybodaeth ar gyfer ein cais ail gylch, gan sicrhau ein bod yn ystyried barn pobl leol.

Cwblhawyd 259 o arolygon, gyda 75.29% o ymatebwyr yn ateb '*Ydw*' i'r cwestiwn '*Ydych chi wedi clywed am Wastadeddau Gwent?*'

Mewn ymateb i'r cwestiwn '*Gyda beth ydych chi'n cysylltu Gwastadeddau Gwent?',* soniodd llawer am ardal Gwarchodfa Gwlyptiroedd Casnewydd ac Allteuryn gydag ychydig iawn yn sôn am enwau lleoedd neu nodweddion ar wastadedd Gwynllŵg rhwng Casnewydd a Chaerdydd.

Llwybrau cerdded a beicio wedi'u marcio'n well ynghyd â chadwraeth / adfer fyddai ymatebwyr yn eu croesawu fwyaf fel '*gweithgareddau yng Ngwastadeddau Gwent a'r cyffiniau',* gyda thrafnidiaeth i'r Gwastadeddau yn cael ei weld fel *'rhwystr mawr i gael mynediad i Wastadeddau Gwent fel lle hamdden'.* Mynediad o'r ddinas i'r arfordir, gwybodaeth, gwrthdaro rhwng defnyddwyr a diogelwch oedd rhai o'r materion a godwyd ynghylch '*llwybrau cerdded, beicio a marchogaeth'* gyda chamerâu cylch cyfyng a chodi ymwybyddiaeth yn cael eu hawgrymu fel camau gweithredu effeithiol i '*leihau achosion ac effeithiau tipio anghyfreithlon a thaflu sbwriel'.*

Roedd cadwraeth a mwy o weithgareddau i ymgysylltu pobl â natur yn awgrymiadau poblogaidd ar gyfer '*prosiectau cymunedol*' a phan ofynnwyd pa '*rywogaethau eiconig'* roedd pobl yn eu cysylltu â'r Gwastadeddau roedd hi'n galonogol gweld rhai o'r straeon llwyddiannus fel Llygoden y Dŵr ac anifeiliaid di-asgwrn-cefn a phlanhigion prin yn cael eu crybwyll. Ond ychydig oedd yn gwybod am fygythiad '*rhywogaethau estron goresgynnol'.*

I gloi, roedd Llifogydd Mawr 1607 a dylanwad Mynachod ar y dirwedd yn '*straeon, mythau a chwedlau*' cyfarwydd gydag awydd cyffredinol i ddarganfod mwy ac i ddysgu rhai '*sgiliau treftadaeth wledig traddodiadol*' fel gwaith helyg, yn ogystal â phrynu '*seidr 'Gwastadeddau Gwent' a gynhyrchwyd yn lleol o berllannau adferedig'!*

Beth wnaethom ni…

Supported by The National Lottery through the Heritage Lottery Fund | Cefnogwyd gan Y Loteri Genedlaethol trwy Gronfa Dreftadaeth y Loteri

Diolch i bawb a roddodd o'u hamser i gymryd rhan yn yr arolwg! Defnyddiwyd yr ymatebion, a data arall a gasglwyd, nid yn unig i lywio dewis o brosiectau sy'n adlewyrchu blaenoriaethau cymunedol ond ein Cynllun Gweithredu Cadwraeth Tirwedd hefyd sy'n rhan o'n cais hail gylch i Gronfa Dreftadaeth y Loteri.

Ym mis Awst eleni, cyflwynodd y Bartneriaeth y cais ar gyfer darparu 24 prosiect gwahanol ar draws amrywiaeth o themâu, i gychwyn yn 2018 os yw'r holl feini prawf yn cael eu bodloni. Os byddwn yn llwyddiannus, bydd digon o gyfleoedd i bobl fod yn rhan o'r fenter gyffrous hon a byddwn yn ymgynghori â'r panel dros yr ychydig flynyddoedd nesaf gobeithio.

Yn y cyfamser, os hoffech wybod mwy am y rhaglen neu ddweud stori wrthym am Wastadeddau Gwent, hoffem glywed gennych chi. Ewch i'n tudalen **@ourlivinglevels** ar Twitter / 'Our Living Levels' ar Facebook neu ffoniwch ni ar (01633) 292982.

Beth ddywedoch chi wrthym ni…
...Canol y Ddinas: Economi Min Nos a Nos

Canfu canlyniadau'r arolwg nad oedd 30% o ymatebwyr byth yn mynd i ganol y ddinas yn y nos tra bod 74% byth yn mynd neu'n mynd yn anaml (unwaith bob ychydig fisoedd). Roedd eu rhesymau'n amrywio ac yn cynnwys bod y rhan fwyaf o bobl yn mynd i fwyta yn Friars Walk neu'n mynd i'r theatrau / sinemâu, gydag ychydig yn mynd i glybiau. Dywedodd llawer bod ofn ymddygiad gwrthgymdeithasol / gangiau / cardota yn enwedig ar Stryd y Bont / y Stryd Fawr yn eu hatal rhag ymweld.

O ran y ddwy flynedd ddiwethaf dywedodd 36% fod pethau wedi newid er gwell, gyda 52% yn dweud ei fod yn well neu yr un fath. Roedd y rhesymau yn cynnwys Friars Walk a dewis gwell o lefydd i ymweld â nhw, er bod rhai'n dweud bod gangiau'n broblem ynghyd â nifer y ceir wedi'u parcio ymhobman.

Wrth sgorio mannau o 1 i 10 (1 yn wael a 10 yn dda) roedd peth o'r adborth fel a ganlyn:

- Diogel – 61% wedi rhoi sgôr o 5 neu fwy gyda'r mwyafrif ar 5 (15% wedi rhoi 1 o hyd).
- Glân – 50% wedi rhoi sgôr o 4 neu is, gyda 20% arall wedi rhoi 5.
- Dewis da o leoliadau bwyta, bariau a thafarnau – rhan fwyaf wedi nodi 'da' gyda sgôr o 5 neu drosodd.
- Dewis da o gerddoriaeth fyw – sgoriau wedi'u rhannu'n gyfartal iawn ar draws pob sgôr gyda'r rhan fwyaf yn rhoi 5 (36%).
- Dewis da o lefydd siopa a manwerthu – tua pen da y raddfa, gyda 5 a 7 yn fwyaf poblogaidd (17%).
- Apelio at deuluoedd – sgoriau wedi'u rhannu'n gymharol gyfartal, ond yn gwyro tua'r pen gwael eto gyda'r sgôr mwyaf poblogaidd yn 5 (23%).

Beth wnaethom ni…

Rydym wedi rhannu'r canfyddiadau hyn gyda Grŵp Canol Dinas Ddiogelach Casnewydd yn Un i lywio camau gweithredu'r dyfodol.

Rydym wedi creu tîm rheoli canol dinas estynedig newydd sy'n cynnwys yr Heddlu, Casnewydd Fyw a Chasnewydd Nawr (BID). Mae Casnewydd Fyw yn dal i gyflogi dau Lysgennad sy'n gweithio tan 8pm yng nghanol y ddinas bellach.

Mae'r Cyngor wedi gosod 35 bin newydd yng nghanol y ddinas gyda strydoedd yn cael eu glanhau'n drylwyr yn ystod yr haf.

Rydym am adolygu gorchymyn amddiffyn gofod cyhoeddus canol y ddinas, yn enwedig mewn perthynas â brwydro yn erbyn ymddygiad gwrth-gymdeithasol gan gangiau a chardota, yn enwedig ger peiriannau arian parod.

Mae BID yn ystyried cynigion i gyflwyno cynllun rhoi gwahanol i'w redeg drwy siopau lleol. Byddai hyn yn opsiwn amgen yn hytrach na rhoi'n uniongyrchol i gardotwyr. Byddai unrhyw roddion yn cael eu rhoi i elusen leol i ddarparu cymorth i unigolion sydd mewn angen.

Mae tîm Partneriaeth Canol y Ddinas yn gweithio tuag at fodloni safonau'r Faner Borffor ar gyfer yr economi min nos a nos gyda golwg ar gyflwyno cais am ddyfarniad yn 2018 gobeithio.

Beth ddywedoch chi wrthym ni / Beth wnaethom ni… …Marchnad Casnewydd

Roedd canlyniadau'r arolwg yn amlygu rhai o'r materion sydd angen i ni eu gwella yn y Farchnad. Rydym yn ystyried rhaglen i adnewyddu'r toiledau'n gyfan gwbl. Rydym hefyd am annog mwy o bobl ifanc i ymweld â'r Farchnad drwy gael stondinau sy'n apelio i'r grŵp oedran iau. Yn gyffredinol, nododd yr arolwg faterion sydd angen edrych arnynt yn y Farchnad fel a yw'r hyn sydd ar gael ar hyn o bryd yn gynaliadwy, ac ati.

Beth ddywedoch chi wrthym ni / Beth wnaethom ni… …Trafnidiaeth Gymunedol

Mae adborth o'r arolwg yn dangos bod llawer o bobl yn anhapus â'r gwasanaethau bysiau sydd ar gael ond canran fach iawn a ddywedodd y byddent yn defnyddio gwasanaeth bws cymunedol pe bai un yn cael ei sefydlu yng Nghasnewydd. Mae gennym ni wasanaeth bws cymunedol yn ardal Casnewydd o'r enw 'grass routes', sy'n rhedeg o ddydd Llun i ddydd Gwener – mae rhagor o wybodaeth ar wefan Cyngor Sir Fynwy o dan 'cludiant cymunedol grass routes'.

Mae'n wych bod gan bobl dros 60 oed gerdyn teithio ar fws am ddim a'u bod yn hapus i'w ddefnyddio ond mae angen gwneud rhagor i roi gwybod i bobl am brisiau tocynnau bysiau.

Diolch i chi!!!

Diolch o galon i bawb a gwblhaodd Arolygon y Gaeaf a'r Gwanwyn, rydym yn gwerthfawrogi'ch adborth yn fawr. Dyma'r cyfraddau ymateb ar gyfer y ddau arolwg: Gaeaf (40%, 259 o ymatebion); a Gwanwyn (35%, 224 o ymatebion).

Cysylltu â ni

E-bost: one.newport@newport.gov.uk neu ffôn: (01633) 656 656
Gwefan: www.onenewportlsb.newport.gov.uk neu dilynwch ni ar Twitter @OneNewport.